



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Awst 2012

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 4 MEDI 2012 am 10.00 am** yn **YSTAFELL PWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN BUDDIANNAU

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYS

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 17eg Gorffennaf 2012 (copi'n amgaeedig).

5 ADRODDIAD DIWEDDARU ARIANNOL (Tudalennau 13 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

6 PROSIECT CYMORTH I'R TEULU, AMDDIFFYN PLANT – ADRODDIAD EITHRIO CONTRACT (Tudalennau 29 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd R.L. Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeedig) a oedd yn manylu Prosiect Cymorth i'r Teulu, Amddiffyn Plant Tîm Cymorth i'r Teulu, a ariennir gan gynllun Cefnogi Pobl, ac yn gofyn am eithrio'r contract o'r gofyniad i dendro.

7 PROSIECT RHANBARTHOL EFFEITHIOLRWYDD A GWELLIANNAU YSGOL – SEFYDLU CYD-BWYLLGOR (Tudalennau 37 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd E.W. Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) sy'n gofyn am gymeradwyaeth i'r Amodau Cyfeirio ac Aelodaeth y Cyd-bwyllgor sydd i'w sefydlu yn dilyn penderfyniad i dderbyn yr Achos Busnes Llawn, a sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwelliannau Ysgol, ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru.

8 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL (Tudalennau 41 - 76)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi manylion Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

9 NEWIDIADAU I RAGLEN CEFNOGI POBL (Tudalennau 77 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd R.L. Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeëdig) yn manylu'r datblygiadau diweddaraf yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer Rhaglen Cefnogi Pobl a gofyn i'r Cabinet gytuno ar gynrychiolaeth Aelod Arweiniol ar y Cydbwyllgor Rhanbarthol.

10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 89 - 90)

Derbyn blaenraglen waith y Cabinet a chydabod y cynnwys.

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym mharagraffau 13 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

11 PROSIECT GWELLA TAI GORLLEWIN Y RHYL – GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (Tudalennau 91 - 100)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd H.H. Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copi'n amgaeëdig) ar ddefnyddio trefniadau Prynu Gorfodol i gaffael eiddo yng Ngorllewin y Rhyl, i ddibenion cyflawni Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans (Cadeirydd), Julian Thompson-Hill, Eryl Williams, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith a/ac David Smith

Arsyllwyr: Cyngorwyr Ray Bartley, Joan Butterfield, William Cowie, Richard Davies, Gwyneth Kensler a David Simmons

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMcG), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Pensaer Cadwraeth (PE), Rheolwr Adfywio Strategol (MD), Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd David Smith fuddiant personol yng Nghynnig Datblygu Canolfan Hamdden Rhuthun (eitem rhif 6 ar y Rhaglen) gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Brynhyfryd.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2012.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.*

5 CYTUNO CYNLLUN AR Y CYD AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

Yn absenoldeb yr Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, cyflwynodd y Cyngorydd Barbara Smith yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynllun ar y cyd i ddarparu Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol yng Ngogledd Cymru, fel sy'n ofynnol dan Ran 1 Mesur Iechyd

Meddwl (Cymru) 2010. Roedd cynllun rhanbarthol ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, a nawr gofynnir am gytundeb yr holl bartneriaid i'r cynllun. Y Bwrdd Iechyd oedd yr asiantaeth arweiniol ar gyfer y cynllun.

Ystyriodd y Cabinet y newidiadau a'r gofynion deddfwriaethol yn sgil Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn yr ardal. Gofynnwyd am sicrhad mewn perthynas â chyllid ar gyfer y cynllun yn y dyfodol er mwyn diogelu sefyllfa'r Cyngor a'r galw tebygol ar y gwasanaethau o ganlyniad i ymyrraeth gynnar. Adroddodd Mr. Wyn Thomas o'r Bwrdd Iechyd ar y dyraniad ariannol ar draws awdurdodau lleol a'r buddsoddiad arfaethedig mewn staff er mwyn cydraddoli baich achosion ar draws yr ardaloedd. Roedd y galw ar y gwasanaethau yn y dyfodol yn anhysbys ar hyn o bryd ond roedd ymrwymiad i adolygu gweithgaredd trwy'r amser. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn monitro trefniadau ariannu a dywedodd y Cyngorydd Barbara Smith y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu gan y partneriaid yn rheolaidd.

Holodd y Cyngorydd Joan Butterfield os oedd unrhyw hyblygrwydd yn y cynllun i ddelio ag amddifadiad cymdeithasol ac atebodd Mr Thomas y byddai cefnogaeth yn cael ei darparu gyda neu o fewn gwasanaethau Meddygon Teulu ac y byddai'r gweithwyr yn cael eu defnyddio yn dibynnu ar weithgareddau a'r galw mewn practisau penodol. Mynegodd y Cyngorydd Ray Bartley ei bryderon mewn perthynas â'r baich ychwanegol ar nyrsys seiciatryddol ac atebodd Mr Thomas y byddai staff ychwanegol yn cael eu recriwtio fel rhan o'r broses.

Nododd y Cabinet y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd a chynigiodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill bod cyferiad at ddiogelu trefniadau ariannu yn y dyfodol yn cael ei gynnwys yn y penderfyniad. O ganlyniad, fe -

BENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Cyd-Gynllun (fel y manylwyd ynghlwm wrth yr adroddiad) yn amodol ar adolygiad pe byddai tybiaethau ariannu yn newid.

6 CYNNIG DATBLYGU CANOLFAN HAMDDEN RHUTHUN

[Datganodd y Cyngorydd David Smith fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd.]

Cyflwynodd y Cyngorydd Huw Jones yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynigion i ddatblygu cyfleusterau Addysg Gorfforol a hamdden yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun / Ysgol Brynhyfryd. Roedd y cynigion yn cynnwys cae chwarae pob tywydd, derbynfa, manau newid, ystafelloedd ffitrwydd a'r posibilrwydd o gael trac rhedeg yn y dyfodol. Tanlinellodd y Cyngorydd Jones y gwaith a ymgymerwyd gan y partner datblygu ac ymhelaethodd ar fforddiadwyedd y cynllun. Pe cymeradwywyd y cynigion, byddai gwaith adeiladu mwy na thebyg yn cychwyn ym mis Medi/Hydref ac yn cymryd rhyw ddeuddeg wythnos i'w gwblhau.

Mynegodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill ei gefnogaeth i'r cynigion, gan ddweud bod y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi ymgymryd â dadansoddiad manwl

o'r achos busnes. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau cyfranogiad y sector preifat mewn cynlluniau o'r fath i'w gwneud yn ariannol ymarferol a chymeradwyodd ddefnyddio partneriaid datblygu lle'n briodol.

Ymatebodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden i gwestiynau'r aelodau ac ymhelaethu ar fanylion y cynllun; cystadleuaeth yn y sector a marchnata'r cyfleusterau. Cadarnhaodd bod y prosiect yn cynnwys gwahanu'r cyhoedd a'r disgyblion i ganiatáu mwy o ddefnydd cymunedol a byddai hefyd yn galluogi i'r ysgol arbed ar eu cyfraniad hwy tuag at y cyfleusterau. Pwysleisiodd y Cynghorydd Joan Butterfield ddiffyg cyfleusterau trac yn y sir a chymeradwyo derbyn yr opsiwn i gael trac rhedeg i ddiwallu'r anghenion hynny. Gofynnodd hefyd am sicrhau bod costau cynnal a chadw wedi eu cynnwys o fewn yr amcanestyniadau cyllidebol. Dywedodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y byddai trac rhedeg yn cael ei ystyried yn y dyfodol pe byddai'r cynllun yn cynhyrchu digon o incwm i dalu cost y buddsoddiad. O ran costau cynnal a chadw, byddai'r cynigion yn dileu llawer o'r gwaith cynnal a chadw a oedd wedi hel ar y safle ac roedd cyllidebau cynnal a chadw yn bodoli. Roedd angen i'r partner datblygu hefyd wneud peth gwaith cynnal a chadw dan y cytundeb fframwaith.

Ar ôl ystyried addasrwydd a haeddiannau'r cynllun, roedd y Cabinet yn falch o gefnogi'r cynigion i ailddatblygu i wella cyfleusterau ar gyfer yr ysgol a'r gymuned ehangach, ac roedd yn fodlon bod y cynigion yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol. Nododd yr aelodau hefyd y potensial i gael effeithlonrwydd pellach pe byddai lefel y galw a nodwyd yn yr astudiaeth o ddichonolrwydd yn cael ei chwrrd. Llongyfarchodd yr Arweinydd y gwasanaeth ar yr agwedd flaengar tuag at ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden a thalodd yr aelodau deyrnged i waith y swyddogion dan sylw.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer datblygiad £1.3 miliwn cyfleusterau Addysg Gorfforol a hamdden yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun / Ysgol Brynhyfryd.

7 HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn diweddarau'r Cabinet ar gynnydd ar y safle ac yn argymhell awdurdod i gymryd camau pellach. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad cyfrinachol ar y costau tebygol.

Rhoddodd y Cynghorydd Smith beth cefndir i'r sefyllfa bresennol gan gynnwys cynnydd ar ôl yr Hysbysiad Gwaith Brys a gyflwynwyd ar 6 Mehefin 2011, costau a achoswyd hyd yma a chostau tebygol yn y dyfodol. Nodwyd bod creu Endid Un Pwrpas (ar ffurf Ymddirideolaeth Cadwraeth Adeilad) yn hanfodol cyn cyflwyno'r Hysbysiad Trwsio a theimlai'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid cynnwys cyfeiriad at hynny yn y penderfyniad. Os nad oedd y perchennog yn gwneud cynnydd ar yr atgyfeiriadau o fewn dau fis, gallai'r cyngor gychwyn ar gamau prynu gorfodol.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd at ebost a dderbyniwyd y diwrnod blaenorol ar ran perchnogion yr eiddo yn honni bod y cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Roedd y Pennaeth yn gwrthod yr

honiadau a hysbysodd y Cabinet bod popeth mewn trefn yn gyfreithiol. Roedd y Cynghorydd Hugh Irving wedi digio gyda'r ebost a oedd yn bygwth camau cyfreithiol, a themlai y dylai perchnogion yr eiddo geisio dod i gytundeb gyda'r awdurdod lleol.

Wrth ystyried yr adroddiad, croesawodd yr aelodau y cynnydd a oedd yn cael ei wneud a thalu teyrnged i'r swyddogion am eu gwaith caled yn delio gyda'r broblem hon a oedd wedi bodoli am amser maith, dan amgylchiadau anodd. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd ar amserlenni, dywedodd y Pensaer Cadwraeth ei bod yn dibynnu'n fawr ar adwaith y perchennog ond y gallai camau prynu gorfodol a chaniatâd cynllunio ar gyfer defnydd amgen gymryd hyd at dair blynedd. Trafododd yr Aelodau hefyd gynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol ac roedd yr Arweinydd yn falch o weld proses glir i'w dilyn. Dywedodd y Pensaer Cadwraeth y gallai datblygu'r safle ddilyn camau prynu gorfodol ac y gellid ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd amgen gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeilad. Mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Ray Bartley ynglŷn â diogelwch y safle, dywedodd y Pensaer Cadwraeth bod hysbysiadau rhybuddio wedi eu gosod o gwmpas yr adeilad a bod yr holl bwyntiau mynediad wedi eu byrddio i fyny. Cyfeiriodd hefyd at y posibilrwydd o osod camerâu teledu cylch cyfyng o amgylch y safle.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cadarnhau ei gymeradwyaeth i gyflwyno Hysbysiad Trwsio, sefydlu Endid Un Pwrpas a symud ymlaen i gamau Prynant Gorfodol gyda chytundeb gefn-wrth-gefn i drosglwyddo'r safle i Endid Un Pwrpas.

8 ADRODDIAD ARIANNOL 2012/13

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd, a gofynnodd hefyd i'r Cabinet ystyried argymhelliad gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Darparodd grynodedb o sefyllfa ariannol y Cyngor, fel a ganlyn

- Dangosodd amcanestyniad diweddaraf y gyllideb refeniw sefyllfa gytbwys ar draws yr holl wasanaethau
- Roedd £1.312m o'r arbedion a gytunwyd fel rhan o'r gyllideb wedi ei gyflawni ac roedd £2.131m ar y gweill
- Tanlinellodd amrywiadau allweddol o'r cyllidebau a thargedau arbed yn ymwneud â gwasanaethau unigol, a
- Diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Gofynnodd y Cynghorydd Thompson-Hill hefyd am gefnogaeth i argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol (fel y manylwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad) yn ymwneud â chynllun cyfalaf i wella darpariaeth gwasanaethau llyfrgell ym Mhrestatyn. Croesawodd y Cynghorwyr Huw Jones a Hugh Irving y cynllun gan ddweud y byddent yn cyfarfod gyda Chyngor Tref Prestatyn y noson honno gyda golwg ar leddfu unrhyw bryderon a fynegwyd mewn perthynas â'r cynigion. Esboniodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y byddai angen ystyried unrhyw wrthwynebiadau am resymau cynllunio gan y Pwyllgor Cynllunio ond na fyddai'n effeithio amserlen y prosiect.

Nododd y Cyngorydd David Smith y gwahaniaethau arwyddocaol mewn cyfraddau llog ar gyfer benthyca a buddsoddi. Esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bod y rhan fwyaf o ddyled y cyngor wedi ei fenthyg gan awdurdodau blaenorol pan roedd cyfraddau llog yn uchel iawn. Ar hyn o bryd, roedd y cyngor yn buddsoddi ar sail tymor byr.

Holodd y Cyngorydd Gwyneth Kensler ynglŷn â'r pwysau o £50k ar Adfywio'r Rhyl a'r costau cynyddol a oedd yn gysylltiedig â phrosiect y Rhyl yn ei Blodau. Cyfeiriodd hefyd at yr anfodlonrwydd yng Nghonwy ynglŷn â'r gyllideb Cludiant Ysgol a gofynnodd a allai'r cyngor hwn gadaernhau cadernid ei gyllideb ef ar gyfer Cludiant Ysgol. Adroddodd yr Arweinydd ar waith ychwanegol a ymgymeryd gyda Chynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen gan ddweud y byddai'r diffyg adnoddau a chapasiti yn cael ei archwilio. Cytunodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol ddarparu costau i'r Cyngorydd Kensler ar brosiect y Rhyl yn ei Blodau. Adroddodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill nad oedd unrhyw faterion o bryder wedi eu codi mewn perthynas â chyllideb Cludiant Ysgol Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD –

- (a) *cydnabod y cyllidebau a'r targedau arbed ar gyfer y flwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd, a*
- (b) *cymeradwyo'r prosiect cyfalaf i wella gwasanaethau llyfrgell ym Mhrestatyn fel y manylwyd yn Atodiad 5 i'r adroddiad.*

9 STRATEGAETH UCHELGAIS ECONOMAIDD I OGLEDDEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion y Strategaeth Uchelgais Economaidd ar gyfer Gogledd Cymru a sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd i gydgyssylltu a goruchwylio cyflawniad y strategaeth. Roedd Dogfen y Strategaeth a Chyfansoddiad Drafft y Bwrdd ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiadau A a B yn eu tro.

Pwysleisiodd y Cyngorydd Evans y dangosyddion economaidd a oedd yn dangos bod gan economi Gogledd Cymru gynhyrchiant isel; lefelau isel o sefydlu cwmnïau newydd; lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc a diffyg buddsoddiad mewnol o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU. Er mwyn delio â'r materion hynny datblygwyd Strategaeth, trwy gydweithio rhwng chwe awdurdod lleol y rhanbarth. Gallai'r Cyngor ddilyn ei flaenoriaethau ei hun ar gyfer datblygu economaidd, ond hefyd gweithio'n gydweithredol lle'r oedd yn fanteisiol gwneud hynny. Cynigiwyd bod cyflawni'r Strategaeth yn cael ei sicrhau trwy greu Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer Gogledd Cymru.

Dywedodd y Rheolwr Adfywio Strategol y byddai'r un adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth. Roedd y Pwyllgor Craffu Partneriethau wedi cymeradwyo'r agwedd yn llawn ac wedi gwneud nifer o sylwadau a oedd yn unol â'r camau a oedd yn cael eu cymryd. Ychwanegodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai'r agwedd gydweithredol ranbarthol yn galluogi i awdurdodau lleol Gogledd Cymru elwa ar y cyd gan ddarparwyr allanol. Roedd yr

agwedd wedi gweithio mewn ardaloedd eraill lle'r oedd manteision economaidd gwirioneddol wedi eu gwireddu.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet -

- (a) yn cymeradwyo egwyddorion dogfen Uchelgais Economaidd – Strategaeth ar gyfer Newid, fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a
- (b) chymeradwyo sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd a'r cyfansoddiad drafft fel y nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried, gan nodi y byddai angen y ddau gyfarfod a drefnwyd ym mis Medi mae'n debyg, yn wyneb faint o fusnes roedd i'w drafod.

Gofynnodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill bod eitemau yn y rhaglen waith yn cael eu dyrannu i Aelodau Arweiniol penodol nawr bod Aelodau Cabinet a phortffolios wedi eu cadarnhau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y gall fod oedi posibl (o Fedi i Hydref) wrth gynhyrchu'r adroddiadau canlynol –

- Adolygiad Ysgolion Rhuthun
- Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg seiliedig ar Ffydd

PENDERFYNWYD cydabod Blaenraglen Waith y Cabinet.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.

11 ADRODDIAD REEMA GALLT MELYD

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Irving yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet ystyried yr opsiwn buddsoddi a ffefrir ar gyfer eiddo REEMA yng Ngallt Melyd. Esboniodd bod ymarfer ymgynghori ac arfarniad opsiynau wedi eu cynnal er mwyn penderfynu ar ffordd ymlaen a gytunwyd. Darparwyd manylion yr opsiynau a ystyriwyd.

Anerchodd yr Ymgynghorydd Tenantiaid Annibynnol y Cabinet a chyfleu barn y tenantiaid ar yr opsiynau a disgwyliadau i'r dyfodol. Roedd y tenantiaid yn awyddus i'r cyngor gymryd penderfyniad clir ynglŷn â dyfodol eu cartrefi.

Ystyriodd yr aelodau ddyfodol y stoc dai o ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad, arfarniad ariannol a mewnbwn annibynnol ac amhleidiol gan yr ymgynghorwyr a'r ymgynghorydd tenantiaid annibynnol. Esboniodd y Pennaeth Tai a Datblygu

Cymunedol faterion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau ar yr eiddo, gan gynnwys goblygiadau ariannol ac opsiynau mewn perthynas ag ailwampio neu ddymchwel ac adeiladu o'r newydd. Ar ôl trafodaeth lawn a manwl, fe –

BENDERFYNWYD –

- (a) *bod yn well gan y Cabinet mewn egwyddor opsiwn dymchwel y stoc bresennol ac adeiladu o'r newydd ar y safle yn amodol ar ddatblygu model ariannu priodol;*
- (b) *rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol i ddatblygu a gweithredu polisi gosod a symud lleol;*
- (c) *sefydlu Gweithgor yn cynnwys trigolion, i ddatblygu'r opsiwn a ffefrir a'r model ariannu ar gyfer datblygiad adeiladau newydd;*
- (d) *awdurdodi'r Pennaeth Tai a Chymuned i gychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cymhorthdal tai i ddatblygu tai cyngor newydd ar y safle, ac*
- (e) *unwaith y byddai opsiwn adeiladu newydd a model ariannu wedi eu datblygu, dwyn y mater yn ôl gerbron y Cabinet i'w gymeradwyo'n derfynol.*

12 CONTRACT 7 DYFARNU RHAGLEN WELLIANNAU SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Irving yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet ddyfarnu'n ffurfiol Contract 7 y Rhaglen Gwella Tai ar ôl cwblhau'r broses dendro trwy'r cytundeb fframwaith presennol. Roedd manylion y cytundeb fframwaith ynghyd â chynnydd mewn perthynas â'r Rhaglen Gwella Tai wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad.

Gofynnodd y Cyngorydd Eryl Williams am sicrhad y byddai dyfarnu'r contract yn sicrhau cyflogaeth leol a recriwtio o fewn y sir, Teimlai y dylai hyn gael ei gynnwys fel rhagofyniad mewn contractau i'r dyfodol, Dywedodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol y byddai'r amod hwn yn cael ei gynnwys mewn cytundeb fframwaith newydd a bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r contractwr dan sylw i annog cyflogaeth leol. Cytunodd roddi manylion pellach i'r Cabinet ar y mater hwnnw er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD yn amodol ar ddilysu cyflwyniad tendr y contractwr yn foddhaol, rhoi'r contract i Adever Construction Limited.

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: CABINET

Dyddiad y Cyfarfod: 4 Medi 2012

Aelod Cabinet Arwain: y Cyngorydd Julian Thompson-Hill

Swyddog Arwain: Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau

Teitl: Adroddiad Cyllid

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ar arbedion a chyllideb refeniw'r Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 fel ar ddiwedd mis Gorffennaf 2012. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gryno am y Cynllun Cyfalaf, y Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn cynghori'r aelodau am fformat y cyllidebau ac mae'n nodi'r strwythur adrodd am y flwyddyn i ddod. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw wyriadau sylweddol oddi wrth y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2012/13 fel y'i diffinnir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Cyfalaf a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

3 Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi'r targedau cyllidebau ac arbedion am y flwyddyn ac yn gwneud cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

4 Manylion yr adroddiad

Cyflwynir y rhagolwg diweddaraf o'r gyllideb refeniw yn **Atodiad 1** ac mae'n dangos gorwariant bach ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cyllidebau corfforaethol ac ysgolion.

Mae'r crynodeb Cyfrif Refeniw Tai hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 er gwybodaeth ond cronfa ar wahân ydy hwn ac nid yw'n rhan o gyllideb refeniw'r cyngor.

Mae **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd diweddaraf mewn perthynas â'r arbedion a'r pwysau y cytunwyd arnynt yn rhan o broses gosod cyllideb 2012/13. I gyd, cytunwyd ar arbedion net o £3.443m a chyflawnwyd £1.774m (58%) gyda £1.669m (42%) wedi'i ddsbarthu yn mynd rhagddo. Er bod eitemau wedi'u dosbarthu o hyd fel rhai sy'n 'mynd rhagddynt', ystyrir bod pob un o'r arbedion a restrir yn gyraeddadwy a dylai'r

ganran o arbedion a ddsbarthir fel rhai a gyflawnwyd cynyddu'n raddol dros y misoedd i ddod.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol ar gyllidebau cyfalaf a refeniw'r cyngor a chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Defnyddir y rhan hon o'r adroddiad i amlygu unrhyw amrywiannau allweddol o'r targedau arbedion neu gyllideb, risgiau neu arbedion ychwanegol posibl a allai godi drwy gydol y flwyddyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fwy cyffredinol am y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r sefyllfa hyd ddiwedd mis Gorffennaf yn parhau i ddangos ychydig iawn o amrywiannau o'r cyllidebau y cytunwyd arnynt ond disgrifir isod y meysydd y mae angen eu hegluro ymhellach.

Bydd gofyn i bob adran nodi'n glir y tybiaethau a'r cynnydd mewn perthynas â defnyddio balansau refeniw a ddygwyd ymlaen o 2011/12 i'w cynnwys ymlaen yn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref.

Cyllideb Refeniw

Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden - Mae'r gyllideb ar gyfer Canolfan Oaktree sef Canolfan Plant Integredig y Rhyl o dan bwysau am iddi golli £80k o gyllid grant. Er bod y gwasanaeth yn gweithredu i leihau ei wariant, mae'n debygol y bydd y cyfleuster hwn yn gorwario £40k a chytunwyd y bydd hwn yn cael ei ariannu'n gorfforaethol eleni. Bydd pwysau blynyddoedd yn y dyfodol yn cael sylw yn ystod y broses o osod cyllideb / herio gwasanaeth.

Yn Adran y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio, mae £50k o bwysau posibl ar gyllideb refeniw Adfywio'r Rhyl yn ôl adroddiad mis Gorffennaf. Cynigir bod rhan o'r £91k o danwariant Adfywio o 2011/12 y cael ei rollo ymlaen i gyllido'r costau hyn yn 12/13.

Dangosir bod cyllidebau Gwasanaethau Oedolion wedi'u mantoli ond ar hyn o bryd tybir y bydd rhyw £293k o'r Gronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r pwysau yn y flwyddyn. Roedd hyn yn rhan o'r strategaeth y cytunwyd arni mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth blaenorol a'r rheswm penodol dros greu'r Gronfa Wrth Gefn yn y lle cyntaf.

Mae gan Adran Gwasanaethau'r Amgylchedd darged arbedion cyllideb o £771k ar gyfer 12/13 ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni'r lefel uchel hon o arbedion.

Mae cyllidebau Moderneiddio Addysg a Gofal Cwsmeriaid yn rhagweld tanwariant bach o £45k ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn wargedion yn ystod y flwyddyn oherwydd ailstrwythuro staff, sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Ysgolion – fel ym mis Gorffennaf, mae'r balansau ysgol a ragwelwyd ar gyfer 2012/13 yn dal i fod yn £1.757m. Mae hwn yn symudiad negyddol o £44k o'r balansau o £1.801m a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn gweithio gyda dwy ysgol sydd mewn anhawster ariannol gyda chyfanswm balansau diffyg o £401k. Mae gan yr ysgolion hyn gynlluniau adfer yn eu lle ac maen nhw wrthi'n gweithio tuag at y targedau a osodwyd yn y cynlluniau hyn.

Cynllun Cyfalaf – Yr alldro a amcangyfrifir yw £3.8m ar ddiwedd mis Gorffennaf mewn perthynas â Chynllun o £37.3m y cytunwyd arno. Dengys **Atodiad 3** grynodedb o'r cynllun cyfredol a'r modd y caiff ei gyllido. Dangosir trosolwg ar brosiectau cyfalaf mawr yn **Atodiad 4**.

Cyfrif Refeniw Tai (CRT) – Mae'r rhagolwg CRT diweddaraf yn dangos diffyg canol blwyddyn wedi'i gynllunio o £226k. Mae hyn yn cynnwys ariannu gwariant cyfalaf o £602k o refeniw yn rhan o'r Cynllun Busnes Stoc Dai y cytunwyd arno ar gyfer 2012/13. Mae'r alldro diweddaraf yn cynnwys rhagolygon gwariant cynyddol ar linellau rheoli a goruchwyllo, lle mae rhai costau untro i gefnogi gwella gwasanaeth wedi'u cynnwys. Rhagwelir hefyd y bydd gwariant ar atgyweiriadau uwchlaw'r gyllideb ar hyn o bryd ond mae hyn yn cael sylw a gallai leihau yn y misoedd i ddod. Mae'r Cynllun Busnes yn ddichonadwy o hyd ac, yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf, y balans CRT a fydd yn cael ei ddwyn ymlaen fydd £709k.

Rhagwelir y bydd y Cynllun Cyfalaf Tai'n gwario £7.6m yn 2012/13 sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan fenthycy darbodus (£4.5m). Mae cyflawniad Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd 2012/13 yn parhau ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed ac mae arolwg manwl o gyflwr stoc yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd yr arolwg hwn yn helpu i lywio tybiaethau cynllunio busnes a buddsoddi cyfalaf wrth symud ymlaen.

Dangosir crynodeb o'r sefyllfa CRT ddiweddaraf yn y tabl isod.

Crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai:

Crynodeb o'r Cyfrif Refeniw Tai 2012/13	
Gorffennaf 2012	
Gwariant	£'000
Rheoli a Chynnal a Chadw Tai	5,635
Taliadau Cyfalaf	2,661
Cymhorthdal	3,148
Darpariaeth ar gyfer Dyledion Gwael	29
Cyfraniad Refeniw at Gyfalaf	602
Cyfanswm Gwariant	12,075
Incwm	
Rhenti	11,752

Garejis	159
Llog	9
Cyfanswm Incwm	11,920
Gwarged Canol Blwyddyn /(Diffyg)	155
Balans CRT a Ddygwyd Ymlaen	709

Cynllun Cyfalaf Tai Gorffennaf 2012	
	£,000
Gwariant a Gynllunnir	7,575
Ariannwyd gan:	
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	2,400
Cyfraniad Refeniw	602
Derbyniadau Cyfalaf	17
Benthyca Darbodus	4,556
Cyfanswm	7,575

7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Argymhellwyd y gyllideb refeniw gan y cabinet a chytunwyd yn ffurfiol arni gan y cyngor ar ôl cylch helaeth o heriau gwasanaeth. Cymeradwywyd y cynllun cyfalaf gan y cyngor ar ôl craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y cabinet. Cymeradwywyd y Cyfrif Refeniw Tai ar ôl ymgynghori ag aelodau etholedig a chynrychiolwyr ffederasiwn tenantiaid.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2012/13 ac mae'n arddangos y ffordd y bydd y Cabinet yn cael gwybod am gyllid y cyngor drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau gyflawni'r arbedion y cytunwyd arnynt drwy'r prosesau gosod cyllideb a Heriau Gwasanaeth ac ar hyn o bryd maent fel petaent ar y trywydd cywir i'w cyflawni. Bydd yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf fanwl mewn perthynas â defnyddio balansau a ddygwyd ymlaen o 2011/12. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw wargedion canol blwyddyn yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

Sylwadau Economaidd a'r Diweddaraf am Reoli Trysorlys

Mae'r marchnadoedd ariannol yn dal yn hynod gyfnewidiol ac mae hyn yn parhau i gyfyngu ar nifer y sefydliadau y gall y cyngor fuddsoddi gyda hwy ac ar hyd y buddsoddiadau y gall y cyngor eu gwneud. Mae'r ddau beth hyn yn

cyfyngu ar yr enillion y gall y cyngor eu cyflawni. Wrth i'r ansicrwydd yn y marchnadoedd barhau, mae polisi'r cyngor yn cyfyngu ar y rhan fwyaf o fuddsoddiadau newydd i adneuon dros nos. Mae'r strategaeth hon o wneud buddsoddiadau tymor byr iawn yn debygol o barhau am y tymor canolig.

Cyfanswm y benthyciadau ar hyn o bryd yw £134.39m ar gyfradd gyfartalog o 5.75% a chyfanswm y buddsoddiadau yw £22.0m ar gyfradd gyfartalog o 0.76%.

9 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Hwn yw'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu ac os bydd yn methu â chyflenwi'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni, bydd mwy o bwysau byth ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd rheoli a monitro'r gyllideb yn effeithiol a rhoi gwybod am amrywiannau'n gynnar yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae risgiau penodol yn amlwg wrth ymdrin â phrosiectau cyfalaf a gallant gynnwys gor-redeg amser neu wariant, problemau cyllid ac ystyriaethau eraill heblaw rhai ariannol. Mae mecanwaith cymeradwyo cadarn ac adrodd a monitro ariannol agos, ynghyd â gweithdrefnau rheoli prosiect effeithiol, yn helpu i leihau'r risgiau hyn cymaint â phosibl.

Mae'r CRT yn buddsoddi cyfalaf sylweddol i wella'r stoc dai ac mae'n defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae'r monitro rheolaidd a'r cymeradwyo blynyddol a'r asesiad dichonoldeb o'r Cynllun Busnes Stoc Dai yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gofyn i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 1

DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL REVENUE BUDGET MONITORING REPORT 2012/13

Forecast as at 31/07/2012	Budget			Projected Outturn			Variance			Net	Variance Previous Report
	Expenditure	Income	Net	Expenditure	Income	Net	Expenditure	Income	Net		
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000
Business Planning & Performance	1,197	-224	973	1,197	-224	973	0	0	0	0.00%	0
Legal & Democratic Services	2,065	-553	1,512	2,065	-553	1,512	0	0	0	0.00%	0
Finance & Assets	14,270	-7,265	7,005	14,270	-7,265	7,005	0	0	0	0.00%	0
Highways & Infrastructure	20,112	-9,667	10,445	20,112	-9,667	10,445	0	0	0	0.00%	0
Planning, Regeneration & Public Protection	5,714	-1,936	3,778	5,764	-1,936	3,828	50	0	50	1.32%	50
Adult & Business Services	44,809	-12,959	31,850	44,809	-12,959	31,850	0	0	0	0.00%	0
Children & Family Services	9,799	-1,029	8,770	9,799	-1,029	8,770	0	0	0	0.00%	0
Housing Services	1,842	-1,461	381	1,842	-1,461	381	0	0	0	0.00%	0
Leisure, Libraries & Community Development	9,963	-4,661	5,302	9,963	-4,661	5,302	0	0	0	0.00%	40
Strategic HR	1,558	-470	1,088	1,558	-470	1,088	0	0	0	0.00%	0
Customer Services	4,092	-999	3,093	4,092	-999	3,093	0	0	0	0.00%	0
Environment	19,071	-8,304	10,767	19,071	-8,304	10,767	0	0	0	0.00%	0
Modernising Education	1,476	-321	1,155	1,431	-321	1,110	-45	0	-45	-3.90%	0
School Improvement & Inclusion	10,811	-7,476	3,335	10,811	-7,476	3,335	0	0	0	0.00%	0
Total Services	146,779	-57,325	89,454	146,784	-57,325	89,459	5	0	5	0.01%	90
Corporate	44,674	-36,670	8,004	44,674	-36,670	8,004	0	0	0	0.00%	0
Precepts & Levies	4,569	0	4,569	4,569	0	4,569	0	0	0	0.00%	0
Capital Financing	12,656	0	12,656	12,656	0	12,656	0	0	0	0.00%	0
Total Corporate	61,899	-36,670	25,229	61,899	-36,670	25,229	0	0	0	0.00%	0
Council Services & Corporate Budget	208,678	-93,995	114,683	208,683	-93,995	114,688	5	0	5	0.00%	90
Schools	70,460	-7,756	62,704	70,504	-7,756	62,748	44	0	44	0.07%	44
Total Council Budget	279,138	-101,751	177,387	279,187	-101,751	177,436	49	0	49	0.03%	134
Housing Revenue Account	11,841	-11,912	-71	12,075	-11,921	154	234	-9	225	-316.90%	273

Tudalen 19

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Tudalen 20

Appendix 2 Medium Term Financial Plan Update 2012/13

Update to 31/07/2012

<u>Ref</u>	<u>Action</u>	<u>Status</u>	<u>Saving £'000</u>	<u>Total £'000</u>
General				
A3	Convert Essential Car Users to Casual	In progress	200	
A7	Costs of Democracy	In progress	20	
				220
Support Services Review				
C1	HR Review - Ongoing Impact of Centralisation	In progress	45	
C3	Legal services - phase 1	Achieved	70	
C4	Democratic support	Achieved	28	
C5	ICT/IM Structure	In progress	60	
C6	ICT/IM Procurement	In progress	25	
C7	Finance & Assets	Achieved	300	
				528
Service Challenges				
Leisure, Libraries & Community Development				
Da1	Leisure Services-New Booking System	Achieved	30	
Da2	Back office co-located with Youth	Achieved	30	
Da3	Transfer Town Halls to Town Councils	Achieved	80	
Da5	Remove subsidy by increasing income	In progress	120	
				260
Environmental Services				
Db2	Renegotiate recycle and disposal contracts	Achieved	510	
Db3	Service Redesign (Refuse)	Achieved	200	
Db4	Regional Waste Procurement budget	Achieved	134	
Db7	Other Reorg Savings	Achieved	20	
Db9	Fleet Efficiency	In progress	138	
Db12	Public Conveniences	Achieved	10	
Db14	WAG Waste Target Pressures	Achieved	-366	
Db15	Free School Meals Cost Pressures	Achieved	-20	
Db16	Countryside staff reduction	Achieved	50	
Db17	Tourism Service Redesign	In progress	49	
Db18	Regeneration Service Redesign	Achieved	46	
				771
Planning and Public Protection				
Dc1	Review of Regeneration	In progress	10	
EC21	Review Pest Control	Achieved	20	
EC23	Review Building Control	In progress	20	
EC24	Review of Planning Policy Service	In progress	20	
EC25	Review of CCTV service	In progress	30	
EC27	Review of Trading Standards	Achieved	50	
EC28	Licensing	Achieved	20	
				170
Highways & Infrastructure				
EC12	Passenger Transport	In Progress	35	
EC13	Parking	In Progress	70	
EC15	Development Control	In Progress	18	
	NWTRA Fees	Achieved	100	
EC16	Winter Maintenance	In Progress	65	
				288
Adult Social Services				
Df1	Cefndy Healthcare,	Achieved	43	
Df2	Closer working of Fin assessments & Benefits	In Progress	30	
Other Adult Services				
Df4	Service Restructure	In Progress	130	
Older People				
Df5	Externalise elements of Home Care	Achieved	15	
Df6	Day care - review and rationalise	Achieved	30	
Df7	Review Meals on Wheels	In Progress	64	
Df8	Impact of investment in reablement	Achieved	75	
Df9	Residential Care - Impact of Extra Care	Achieved	100	
Mental Health				
Df11	Management Changes	Achieved	19	
Df12	Partnership Efficiency Savings	Achieved	26	

		<u>Status</u>	<u>Saving</u> <u>£,000</u>	<u>Total</u> <u>£'000</u>
Adult Social Services (con'd)				
Physical Disability & Impairment				
Df13	ISIL Scheme	In Progress	18	
Df14	Reablement Intervention	In Progress	26	
Df15	Telecare	Achieved	20	
Other Adult Services				
Df16	Administration Rationalisation	Achieved	67	
Df17	Systems Thinking and Vacancy Control	In Progress	40	
Business Support & Development				
Df18	PMDF Grant - Loss of funded posts	In Progress	152	
Df19	Workforce Development Review	Achieved	20	
				875
School Improvement & Inclusion				
Dh1	Service Restructure	In Progress	100	100
Children & Family Services				
Staffing				
Dj3	Other Staff Savings	Achieved	21	
Refocus on Core Business				
Dj5	Re-shaping Supervised Contact Service	In Progress	43	
Dj8	Reduction in Independent (external) Placement Provision	Achieved	48	
Decommissioning Services				
Dj11	Voluntary Organisation Grants	Achieved	37	
	Child Trust Funds	Achieved	2	
Dj12	Parenting Programme	Achieved	82	
Dj14	Rhyl Adventure Playground	Achieved	61	
Pressures				
Dj18	In-house Fostering	Achieved	-224	
Dj20	Legislative	Achieved	-28	
				42
Housing				
	Various Small savings	In Progress	7	7
REGIONAL WORKING/COLLABORATION				
ENW1	Education Regional Board	In Progress	25	
ENW2	Social Care Regional Board	In Progress	25	
				50
OUTSOURCING				
G2	Bodelwyddan Castle	Achieved	18	
G4	ECTARC	Achieved	10	
				28
Other Cultural/Heritage activities				
H1	Pavilion Theatre	In Progress	50	
H2	Ruthin Craft Centre	Achieved	20	
H3	Llangollen Pavilion	In Progress	25	
H4	Heritage facilities	In Progress	9	
				104
Total Savings 2012/13				3,443
Summary:			£'000	%
Savings Achieved/Replaced or Pressures Confirmed			1,774	52
Savings In Progress/Being Reviewed			1,669	48
Savings Not Achieved/Deferred			0	0
Total			3,443	

Denbighshire County Council - Capital Plan 2012/13 - 2015/16
Position to July 2012

APPENDIX 3

Tudalen 23

		2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
		£000s	£000s	£000s	£000s
Capital Funding:					
1	General Funding:				
	Unhypothecated Supported Borrowing	8,361	3,470	2,994	2,844
	General Capital Grant	3,251	1,931	1,931	1,931
	General Capital Receipts	768			
	Earmarked Capital Receipts	480	0	0	0
		12,860	5,401	4,925	4,775
2	Prudential Borrowing	11,976	3,003	300	0
3	Reserves and Cera	2,209	1,220	0	0
4	Specific Grants and Contributions	12,007	4,163	961	0
	Total Finance	39,052	13,787	6,186	4,775
	Total Estimated Payments	-37,339	-8,704	-1,261	0
	Contingency	-1,713	-1,000	-1,000	-1,000
	Earmarked Contingency				
	Unallocated Reserve	0	0	0	0
	Funding available	0	4,083	3,925	3,775

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 4 Major Capital Projects Update

Foryd Development

Budget	£10.302m (inc Revenue £413k)
Funding	WG, WEFO and Sustrans grants
Expenditure to Date	£1.855m
Comments	<p>Summary A preferred design for the project which supports the working harbour and provides a smaller timber modular building on the harbour square has been agreed.</p> <p>Foryd Harbour Cycle & Pedestrian Bridge The detailed design is complete other than the mechanical and electrical works. As the project progresses through the construction phase the mechanical and electrical (M & E), works will be refined within the budget provision for this item. The M & E budget has been capped to provide cost certainty and any cost reduction achieved will benefit DCC.</p> <p>A letter of intent was issued to the Contractor earlier in July for the construction of the bridge and the contract documents will be completed shortly, and signed early September 2012.</p> <p>Quayside Units, Public Square & Extended Quay Wall The Planning application for the works was approved 14th March 2012; the planning consent is subject to planning conditions, most of which have already been discharged.</p> <p>The detailed design is complete and the Category 3 check of the design, to ensure that the structural design is sound and fit for purpose is now complete.</p> <p>Further to consultation with the Harbour users the design now includes pontoon moorings in the channel to the seaward side of the pedestrian and cycle bridge.</p> <p>A letter of intent was issued to the Contractor early July for the enabling works contract. The contract documents for the enabling works, (quay walls, estuary bed excavation and formation of the public square) are now complete and it is anticipated that the contract will be signed early September 2012.</p> <p>The procurement of the quayside building has commenced .</p> <p>Foryd Harbour Cycle & Pedestrian Bridge & Quayside Units, Public Square & Extended Quay Wall Costs The projected expenditure is includes use of some of the capital contingency allocated to the project in 2011/12.</p>

	<p>It is likely that further external funding will be made available to the project which should be confirmed in the coming weeks.</p> <p>A value engineering opportunity related to the handrails on the bridge is being investigated and could provide cost savings.</p> <p>Programme The onsite works related to the construction of the bridge and the enabling works contract commenced on 30th July, and to date are progressing well and to programme, with no issues reported.</p> <p>A temporary Harbour Masters office together with a visitor centre is now located at Foryd Harbour, and will remain for the duration of the works. This will provide an essential staff presence in the harbour to inform users and visitors, and will provide a base from which to operate the bridge and CCTV system prior to the completion of the quayside building.</p> <p>The finishes to the square and the building will be subject to subsequent works contracts; these are still scheduled to complete in December 2013.</p>
<i>Forecast Expenditure 12/13</i>	<i>£6.750m</i>

Rhyl Coastal Defence

Budget	£8.246m Phases 1 & 2
Funding	WAG Grant
Expenditure to Date	£7.985m
Comments	<p>This coastal defence scheme will reduce the flood risk to over 2000 properties and 500 businesses in West Rhyl.</p> <p>Phases 1 & 2 for works to the inner harbour and river training wall are complete.</p> <p>A meeting is planned with the Welsh Government in September to discuss phase 3 – works from Sydenham Avenue to the Drift Park. It is hoped that the Welsh Government will confirm funding and programme which will allow works to commence in 2013/14.</p>
Forecast Expenditure 12/13	£0.597m

Highways Programme Works

Budget	£3.650m
Funding	£3.650m Prudential Borrowing

Expenditure to Date	£0.470m
Comments	An allocation of £3.650m was made to progress highways capital works as part of the 2012/13 Capital Bid process. An update on the use of this funding was recently provided to all Councillors.
Forecast Expenditure 12/13	£3.650m

Property Acquisition & Demolitions, Rhyl Going Forward

Budget	£3.863m
Funding	£2.618m SRA Grant ; £0.915m DCC Prudential Borrowing ; £0.176m PEG; £0.154 DCC
Expenditure to Date	£3.206m
Comments	<p>Council have previously approved the purchase of a number of properties in Rhyl with a view to demolition and the provision of public realm works. Latest updates are as follows:</p> <p>Honey Club The Council has submitted an application to the Welsh Government for conservation area consent to demolish the Honey Club. A decision on this is still awaited.</p> <p>A development agreement is currently being formalised. This will enable the redevelopment of the site for a hotel.</p> <p>25 & 26 West Parade A compulsory Purchase order has been served on the owners of the property.</p> <p>26 - 30 Abbey Street These properties have been demolished and the area will in future form part of an urban park, included within the West Rhyl Housing Improvement Project.</p> <p>12, 20 & 31 Gronant Street, Rhyl 20 John Street, Rhyl</p> <p>The acquisition of these properties forms part of the West Rhyl Housing Improvement Project.</p> <p>A separate report on West Rhyl Housing Improvement Project is on the agenda.</p>
Forecast Expenditure 12/13	£0.657m Note. Excludes West Rhyl Housing Project

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4ydd Medi 2012
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Y Cyngorydd Feely, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant
Dyddiad:	12fed Mehefin 2012
Swyddog Arweiniol:	Swyddog Cynllunio Cefnogi Pobl
Teitl:	Gwasanaethau Plant, Tîm Cymorth i'r Teulu, Prosiect Cymorth i'r Teulu Amddiffyn Plant, Eithriad Tendr

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Tîm Cymorth i'r Teulu a ariennir gan brosiect Cefnogi Pobl, Prosiect Cymorth i'r Teulu Amddiffyn Plant.

2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ar eithrio'r contract hwn o'r gofyniad i dendro.

3. Beth yw'r argymhellion?

Eithrio Prosiect Tîm Cymorth i'r Teulu, Amddiffyn Plant o'r gofyniad i dendro.

4. Manylion yr adroddiad

- Mae Prosiect Cymorth i'r Teulu Amddiffyn Plant yn cefnogi rhwng 59 a 100 o deuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau statudol ym meysydd amddiffyn plant a phlant mewn angen, ynghyd â theuluoedd a adnabuwyd fel rhai mewn arfwng a rhai sydd ag angen brys am wasanaethau statudol o'r fath.
- Mae'r prosiect hwn hefyd yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal Cyngor Sir Ddinbych lle mae dyletswydd statudol barhaus yn bodoli.
- Cadarnhawyd yr angen am y prosiect hwn yng Nghynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2012-13, a gytunwyd gan Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl a chan Benderfyniad Dirprwyedig gan yr Aelod Arweiniol Iechyd a Lles.
- Cyflwynir y prosiect hwn yn fewnol gan y Tîm Cymorth i'r Teulu yng Nghyngor Sir Ddinbych ac adran y Gwasanaethau Teuluol.
- Mae Tîm Cefnogi'r Teulu yn elwa o gefnogaeth weinyddol a rheolaeth gan Gyngor Sir Ddinbych sy'n caniatáu dyrannu mwy o adnoddau i gyflwyno gwasanaethau.
- Mae Tîm Cymorth i'r Teulu yn elwa o'r systemau cefnogi sydd eisoes yn bodoli o fewn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych h.y. medru defnyddio system PARIS a'r holl gofnodion mewn perthynas â Phlant mewn Angen ac Amddiffyn Plant. Ni fyddai'r systemau hyn ar gael i ddarparwyr allanol.
- Mae Tîm Cymorth i'r Teulu yn cyflawni canlyniadau o ansawdd i grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth heriol.

- Mae'r cysylltiad rhwng swyddogaethau Amddiffyn Plant statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a rhai'r prosiect hwn yn hanfodol i sicrhau bod y prosiect hwn yn gweithredu'n llwyddiannus. Teimlir mai'r darparwr mewnol presennol sydd yn y sefyllfa orau i gynnal y cysylltiadau hyn. Byddai'n annhebygol iawn y gallai darparwr allanol sefydlu'r cysylltiadau hyn i lefel foddhaol sy'n sicrhau dilyniant wrth ddarparu gwasanaeth.
- Gwerth y contract blynyddol yw £356,782.22 a chyfnod y prosiect yw 3 blynedd gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd arall yn seiliedig ar berfformiad a chanlyniadau. Felly, y dyraniad cyllid fydd £1,783,911.12 ar gyfer cyfnod mwyaf y prosiect, sef pum mlynedd.
- Yn unol ag arferion gorau ac mewn ymgynghoriad â'r Uned Caffael Strategol, nid oes achos cymhellol dros gael ffynhonnell allanol neu gcontractio'r prosiect hwn allan.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at Flaenoriaethau Corfforaethol?

Y Cynllun Mawr:

Fel rhan o'r amrediad o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai, mae'r prosiect hwn yn cefnogi:

- Teuluoedd agored i niwed i gyrchu ymyrraeth gydgysylltiedig o gymorth i'r teulu
- Plant a phobl ifanc gyda datblygiadau ôl-16.
- Unigolion a theuluoedd i gyrchu addysg a chyfleoedd hyfforddi.
- Unigolion a theuluoedd agored i niwed wrth gyrchu cefnogaeth rwystrol.

Ymateb i newid demograffig:

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi pobl sydd angen tai. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at ddelio â phroblemau pobl sy'n symud o gwmpas a thlodi.

Adfywio:

Mae'r prosiect hwn yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth wrth ddelio ag achosion o amddifadiad lluosog, gan gynnwys amddifadiad ac anghenion tai.

Mae'r prosiect hwn yn chwarae rôl allweddol o ran cyfrannu tuag at rwystro digartrefedd ar gyfer grwpiau agored i niwed:

“Bydd partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat wedi gweithio gyda'i gilydd i ddileu amddifadiad”

“Byddwn yn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan hybu eu hannibyniaeth a sicrhau bod pawb yn medru gwireddu eu potensial.”

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Goblygiadau Cost: Mae £356,782.22 y flwyddyn wedi ei ddyrannu i'r prosiect hwn o gyllid Grant Refeniw Cefnogi Pobl fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredol 2012-2013 ac a gytunwyd gan Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl. Y dyraniad ariannol fydd £1,783,911.12 am gyfnod mwyaf y contract, sef pum mlynedd.

7. Pa ymgynghori a fu?

- Mae'r prosiect wedi ei adnabod fel un strategol berthnasol ac wedi ei gadarnhau fel blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2012-2013.
- Ymgynghorwyd â'r Pennaeth Archwilio Mewnol ac mae wedi cadarnhau bod y camau arfaethedig yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol.

8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae'r cynigion yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol ac mae'r eithriad a geisir yn yr achos hwn yn ddilys. Rhaid cynnwys cost y prosiect o fewn yr arian sdd ar gael.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

- Byddai eithrio rhag tendro yn colli'r cyfle i geisio gwell gwerth am arian gan ddarparwr arall. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn mewn perthynas â'r costau a'r ymyrraeth bosibl os na fydd systemau gweinyddol ac amddiffyn mewnol ar gael bellach i ddarparwr y gwasanaeth hwn.
- Roedd y prosiect hwn yn destun tendr cystadleuol yn 2009 ac arhosodd gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Sir Ddinbych.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn mynd i dendr yn cynnwys:

- Mae'r prosiect hwn yn strategol bwysig i Wasanaethau Plant a Theuluoedd Sir Ddinbych. Os aiff i dendr cystadleuol efallai y byddai'r gwasanaeth sensitif ac ymestynnol hwn gyda chysylltiadau agos gydag Amddiffyn Plant yn cael ei roddi i ddarparwr allanol.
 - Byddai angen cynnwys trefniadau monitro ar gyfer Amddiffyn Plant o fewn unrhyw arbedion cost a geid trwy ddyfarnu'r contract hwn i ddarparwr allanol. Nid yw'r goblygiadau cost i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd am ddarparu elfen hon y gwasanaeth yn hysbys.
- Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chytuno â'r argymhelliad yn cynnwys effaith uniongyrchol ar wasanaethau statudol. Mae'r prosiect yn lliniaru pwysau ar wasanaethau Digartrefedd a gwasanaethau eraill trwy ddarparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai.

10. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol (1972); Rheoliad Ariannol 25 (Rheolau Trefniadau Contract); CPR 10.1(a), 10.1(l) & 10.2

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)

MANYLEB CYMORTH YN YMWNEUD Â LLETY

Enw'r Prosiect:**Prosiect Amddifyn Plant Cymorth i'r Teulu****Disgrifiad o'r**

Mae hwn yn brosiect cymorth fel y bo'r angen, yn gysylltiedig â llety,

Prosiect:

ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau statudol ym maes amddifyn plant, a phlant mewn angen, ynghyd â theuluoedd a adnabuwyd fel rhai mewn argyfwng a chydag angen brys am wasanaethau statudol o'r fath. At hyn, bydd y gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghyngor Sir Ddinbych lle mae dyletswydd statudol barhaus yn bodoli.

Bydd holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref ac wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen cymorth mewn nifer o feysydd er mwyn eu helpu i reoli eu tenantiaeth yn annibynnol. Bydd cyfyngiad amser i'r cymorth a disgwylir y bydd unigolion yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned neu'n symud i brosiect cymunedol arall gyda chefnogaeth ar lefel is.

Nodau'r Prosiect:

- Rhwystro pobl rhag cyflwyno eu hunain fel rhai digartref neu a allai fod yn ddigartref
- Sicrhau bod pobl agored i niwed yn medru symud ymlaen i fyw'n fwy annibynnol ac yn parhau i fyw'n annibynnol ar ôl i'r gefnogaeth ddod i ben
- Sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu cefnogi i gyrchu addysg, cyflogaeth, hyfforddiant neu waith gwirfoddol a chael cyfle i gyflawni eu potensial llawn
- Meithrin hyder a sgiliau tai fel bod teuluoedd a phobl ifanc yn medru byw'n annibynnol
- Cefnogi teuluoedd a phobl ifanc i gyrchu gwasanaethau cymunedol erall ac asiantaethau eraill
- Hyrwyddo ffordd mwy sefydlog o fyw
- Cyfrannu tuag at lai o unigedd cymdeithasol
- Cyfrannu tuag at sicrhau bod teuluoedd yn medru cyrchu cefnogaeth / gwasanaethau cyn gynted ag y bo angen/problem yn codi
- Sicrhau bod lles plant a phobl ifanc yn cael ei ddiogelu a'u bod yn cael eu hamddifyn rhag niwed
- Cyfrannu tuag at well perfformiad gan Gyngor Sir Ddinbych a'r Gwasanaethau Teuluol mewn perthynas â'r canlynol:
 - 1) Canran atgyfeiriadau sy'n rhai sydd wedi eu hailadrodd o fewn 12 mis
 - 2) Canran atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle mae'r plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddifyn Plant neu wedi derbyn gofal yn ystod cyfnod 12 mis blaenorol
 - 3) Canran achosion agored plant gyda gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd lle mae'r plentyn yn derbyn gwasanaeth ym mhob un o'r grwpiau canlynol:

- i) Plant ar y Gofrestr Amdiffyn Plant
 - ii) Plant sy'n derbyn Gofal
 - iii) Plant mewn Angen
- 4) Canran achosion agored plant sydd wedi eu dyrannu i rywun ac eithrio gweithiwr cymdeithasol lle mae'r plentyn yn derbyn gwasanaeth ym mhob un o'r grwpiau canlynol:
 - i) Plant ar y Gofrestr Amdiffyn Plant
 - ii) Plant sy'n derbyn Gofal
 - iii) Plant mewn Angen
- 5) Canran pobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y mae'r awdurdod yn dal mewn cysylltiad â hwy yn 19 oed
- 6) Canran pobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y mae'n hysbys eu bod mewn llety addas, di-argyfwng yn 19 oed
- 7) Canran pobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, y mae'n hysbys eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu waith yn 19 oed
- Cyfrannu tuag at gyflwyno saith amcan craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc, h.y. eu bod yn
 - Cael cychwyn teg mewn bywyd
 - Yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu
 - Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn rhydd rhag camdriniaeth, fictimeiddio ac ecsbloetio
 - Â mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, mabolgampau a diwylliannol
 - Bod pobl yn gwrando arnynt, yn eu trin â pharch ac yn cydnabod eu hunaniaeth hiliol a diwylliannol
 - Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol, a
 - Nad ydynt yn ddifrentiedig oherwydd tlodi.
- Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn medru cyrchu'n well a defnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
- Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn medr rheoli eu bywydau yn well
- Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn medru osgoi neu ymdopi ag argyfwng a sefyllfaoedd eraill sy'n achosi straen neu bryder
- Cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau canlynol a'r camau a nodwyd yng Nghynllun Mawr Sir Ddinbych:
 - Cyrchu Addysg
 - Cyrchu cefnogaeth i ofalwyr ifanc
 - Gwell sgiliau sylfaenol, hyfforddiant bywyd a sgiliau bywyd
 - Gwell iechyd a lles emosiynol
 - Cyrchu cefnogaeth i ddatblygiad ôl-16
 - Cyrchu rhaglenni addysg rhianta
 - Cyrchu cefnogaeth rwystrol ar gyfer unigolion a theuluoedd agored i niwed

Canlyniadau'r Prosiect:

Atgyfeiriadau:

Derbynnir atgyfeiriadau gan dimau Gwaith Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych ac asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill trwy gyfrwng Cydgysylltydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych.

Bydd atgyfeiriadau a wrthodir neu rai a ddori ar restrï aros yn cael eu hatgyfeirio yn brydlon i'r Cydgysylltydd Cefnogi Pobl ar gyfer ail-

ddyranïad posibl i brosiect arall. Bydd y Cydgysylltydd Cefnogi Pobl a chyrff atgyfeirio eraill yn cael eu hysbysu o unrhyw le gwag ar y prosiect.

Dewisir defnyddwyr gwasanaeth ar sail anghenion yn unig ac nid yn ôl rhagolygon symud ymlaen yn llwyddiannus.

DS: os canfyddir angen am gefnogaeth barhaus (h.y. gofyniad hirdymor am gefnogaeth yn mynd heibio dwy flynedd), cyfeirir y defnyddwyr gwasanaeth at wasanaeth lefel isel mwy priodol neu un nad yw'n cael ei ariannu gan Gefnogi Pobl yn unol â meini prawf cymhwyster Cefnogi Pobl.

Maint y Prosiect:

Lleoliad:

Sir Ddinbych (y sir gyfan)

Defnyddwyr

Rhwng 59 (o leiaf) a 100 (ar y mwyaf)

Gwasanaeth:

Staff Cymorth:

Bydd darparwr y gefnogaeth yn cyflwyno o leiaf 350 awr o wasanaeth yr wythnos h.y. 10 gweithiwr cefnogi cyfwerth â llawn-amser. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod digon o staff ar gael i gyflwyno gwasanaeth yn gyson ar y lefel hon 52 wythnos y flwyddyn.

Maint y contract:

Dyddiad Cychwyn:

30ain Tachwedd 2012

Hyd:

Tair blynedd (gydag opsiwn i ymestyn am flwyddyn neu ddwy arall)

Pris Contract

£1,783,911.12 ar y mwyaf am gyfnod llawn y contract (cyfanswm o 5 mlynedd)

Mwyaf:

(£356,782.22 y flwyddyn)

Gofynion

Cyflwyno:

Bydd staff cymorth yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth unigol i ymgymryd ag asesiad manwl o anghenion a datblygu cynllun cefnogi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd yr holl gynlluniau cefnogi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys strategaeth ymadael o'r gwasanaeth cymorth.

Bydd y darparwr yn cyflwyno pecyn cefnogi sy'n ymwneud â llety gan gynnwys holl agweddau cynghori a chefnogaeth gyffredinol a nodwyd wrth asesu angen a chynllun cefnogi a chynorthwyo defnyddiwr y gwasanaeth i gyrchu llety symud ymlaen priodol.

Mae'r prosiect yn brosiect cymorth fel y bo'r angen, ac felly bydd angen i'r darparwr gyflwyno gwasanaeth i defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi eu hunain a chynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth i gyrchu llety priodol newydd os ydynt yn byw mewn llety anaddas neu lety dros dro.

Math o

gefnogaeth:

Bydd y gefnogaeth a roddir yn ymwneud â thai ac yn cydymffurfio â chyfarwyddyd Cefnogi Pobl, ei safonau a'r meini prawf cymhwyster. Ni ddylai'r gwasanaeth ddarparu gofal personol, gofal iechyd na gwasanaeth cynghori proffesiynol neu therapiwtig.

- Y tu allan i oriau arferol:** Bydd staff yn darparu gwasanaeth hyblyg ac ymatebol ar gyda'r nos ac ar benwythnos pan fydd angen, yn ôl anghenion defnyddwyr gwasanaeth.
- Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth:** Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu tuag at brosesau adolygu a monitro'r prosiect hwn. Bydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cyfrannu tuag at arfarniad o'r prosiect a bydd hyn yn bwydo gwybodaeth i wella a datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4 Medi 2012
Swyddog / Aelod Arwain:	y Cynghorydd Eryl Williams Aelod Arwain dros Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Hywyn Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid
Teitl:	Cydbwyllgor y Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ar 21 Chwefror 2012, cymeradwyodd y Cabinet yr Achos Busnes Terfynol ar gyfer y Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion. Yn yr Achos Busnes Llawn, nodwyd bod angen sefydlu Cydbwyllgor i lywodraethu'r strwythur Rhanbarthol newydd ledled Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi Cylch Gorchwyl manwl ac aelodaeth ar gyfer y Cydbwyllgor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cael cymeradwyaeth y Cabinet i Gylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Cydbwyllgor i'w sefydlu'n unol â'r penderfyniad i dderbyn yr Achos Busnes Llawn a sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion newydd, ledled chwe Awdurdod Gogledd Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Cadarnhau bod y Cydbwyllgor yn cael ei sefydlu'n unol â'r adroddiad.
- 3.2 Penodi'r Aelod Arwain dros Addysg i gynrychioli'r Awdurdod ar y Cydbwyllgor.
- 3.3 Cymeradwyo Cylch Gorchwyl a swyddogaethau dirprwyedig y Cydbwyllgor fel y'u nodir ym mharagraff 4 yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Crynodeb

Penderfynodd chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2012:

- (a) Cefnogi a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion erbyn mis Ebrill 2013.
- (b) Cefnogi argymhelliad Bwrdd Rhaglen Addysg Gogledd Cymru i fabwysiadu Cydbwyllgor gydag Awdurdod Cynnal fel model llywodraethu.

- (c) Ar ôl hynny, cafodd Cyngor Gwynedd ei gymeradwyo gan Grŵp Prif Weithredwyr y chwe Awdurdod Lleol i fod yr Awdurdod Cynnal i'r Gwasanaeth Rhanbarthol.

Ar ôl gwerthuso'r dewisiadau'n fanwl, yr argymhelliad yn yr Achos Busnes Llawn oedd mabwysiadu model llywodraethu sy'n seiliedig ar ddull Cydbwyllgor / Awdurdod Cynnal. Mae'r gwaith o sefydlu'r Gwasanaeth yn mynd rhagddo bellach. Bydd y Bartneriaeth yn seiliedig ar gytundeb ffurfiol ("Cytundeb Rhwng Awdurdodau") sy'n gwneud penderfyniad mis Mawrth 2012 yn effeithiol i sefydlu'r Gwasanaeth. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau'n diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Partneriaid a'r Awdurdod Cynnal yn ogystal â threfniadau llywodraethu. Yn rhan o'r broses honno, nododd yr Achos Busnes Llawn strwythur amlinellol i'r Cydbwyllgor ond byddai manylion penodol yr aelodaeth a'r Cylch Gorchwyl yn destun ystyriaeth a gwaith pellach. Lluniwyd yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r broses honno ac mae'n argymhell aelodaeth a chylch gorchwyl ffurfiol y Cydbwyllgor yn seiliedig ar yr Achos Busnes Llawn a chyngor cyfreithiol pellach.

4.2 Cydbwyllgor

Nodwyd strwythur aelodaeth bosibl y Cydbwyllgor yn yr Achos Busnes a hynny gan gydnabod y byddai angen mireinio hwn ymhellach. Roedd yr Achos Busnes Llawn fel y'i derbynnir hefyd yn amlinellu cwrpas y gwasanaeth arfaethedig a swyddogaeth y Cydbwyllgor yn y strwythur hwnnw. Bydd y Cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu gan Reolau Gweithdrefn yr Awdurdod Cynnal.

4.3 Aelodaeth y Cydbwyllgor

Mae aelodaeth arfaethedig y Cydbwyllgor a nodir isod yn adlewyrchu'r strwythur a amlinellwyd yn yr Achos Busnes Llawn. Mae'r newid allweddol mewn perthynas â hawliau pleidleisio'r aelodau Cyfetholedig. Mae cyfyngiad cyfreithiol sy'n golygu na chaiff aelodau Cyfetholedig y Cydbwyllgor bleidleisio ar benderfyniadau*.

Y cworwm angenrheidiol i gyfarfodydd y Cydbwyllgor fydd pump (5) aelod pleidleisio o'r Cydbwyllgor. Bydd y Cytundeb hefyd yn darparu ar gyfer presenoldeb dirprwy os yw'n ofynnol.

Aelodau Pleidleisio	Aelodau Swyddog – Dim Pleidlais
6 x Aelod Portffolio Addysg <i>un o bob ALI yng Ngogledd Cymru</i>	6 x Prif Swyddog Addysg Statudol <i>un o bob ALI yng Ngogledd Cymru</i>
Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais*	Swyddogion yn Bresennol
1 x Cynrychiolydd Esgobaeth a <i>enwebir o Esgobaeth gyfan Wrecsam, Llanelwy a Bangor, ar dymor chwe-misol sy'n cylchdroi</i>	1 x Cynrychiolydd Cyfreithiol
1 x Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd 1x Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd 1x Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig	1 x Cynrychiolydd A151
1x Cynrychiolydd Llywodraethwyr	Arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn

Fel y darperir ar ei gyfer yn yr Achos Busnes Llawn, byddai Grŵp Defnyddwyr Ysgolion a Llywodraethwyr RSEIS yn enwebu cynrychiolydd Uwchradd, Cynradd, Arbennig a Llywodraethwyr i gymryd y seddi priodol ar y Cydbwyllgor.

4.3 Cylch Gorchwyl a Swyddogaethau Dirprwyedig y Cydbwyllgor

Bydd y Cytundeb Rhwng yr Awdurdodau hefyd yn diffinio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cydbwyllgor, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'i Bwerau Dirprwyedig. Wrth wneud hynny, bydd hefyd yn nodi pa faterion sy'n cael eu neilltuo'n benodol i'r awdurdodau partner unigol eu pennu. Dyma gylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig arfaethedig y Cydbwyllgor:

- I. hyrwyddo cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
 - hwyluso gwaith partneriaeth adeiladol;
 - ymgysylltu â buddgyfranogwyr a rhan-ddeiliaid allweddol pan fydd yn briodol; a
 - chynnal gweithgareddau eraill o'r math a gyfrifir i hwyluso'r Gwasanaeth, neu sy'n addas i ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
- II. goruchwyllo rheolaeth y Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i fod yn perfformio'n unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel yr adlewyrchir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhwng yr Awdurdodau a'r Cynlluniau Comisiynu a Busnes Blynyddol y cytunwyd arnynt;
- III. cymeradwyo'r gyllideb i'r Gwasanaeth bob blwyddyn;
- IV. cymeradwyo'r cynllun busnes i'r Gwasanaeth bob blwyddyn;
- V. monitro a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- VI. cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;
- VII. cymeradwyo strwythur staff y Gwasanaeth;
- VIII. penodi Prif Swyddog y Gwasanaeth;
- IX. penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; a
- X. lle bo'n ofynnol, pennu neu drefnu pennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

Neilltuir y materion canlynol yn benodol i'w penderfynu'n unigol gan y Cabinet:

- I. cymeradwyo trefniadau llywodraethu partneriaeth rhwng Cynghorau;
- II. cynyddu cyllideb dros gyfraniadau Cyngor y cytunwyd arnynt;
- III. caffael y gwiriadau sicrhau ac archwilio angenrheidiol; a
- IV. terfynu'r Bartneriaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Yn Sir Ddinbych, rhoddwyd blaenoriaeth i godi cyflawniadau addysgol yn ystod bodolaeth y Cynllun Corfforaethol diwethaf. Mae trafodaethau gydag Aelodau a rhan-ddeiliaid ynghylch cynnwys y Cynllun Corfforaethol newydd a'r ddogfen ymgynghori bresennol wedi nodi bod hyn yn flaenoriaeth am y 5 mlynedd nesaf.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid yw'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw bwysau cost cysylltiedig ac nid oes unrhyw oblygiadau i feysydd gwasanaeth eraill.

- 7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal ac a gafwyd Sgrinio i Asesu Effaith ar Gydraddoldeb?**
Cynhaliwyd ymgynghoriadau manwl â phob rhan-ddeiliad wrth greu'r Achos Busnes Llawn. Mae ymgynghoriadau manwl dilynol hefyd wedi digwydd â'r staff y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnynt. Ymgynghorwyd â'r Adran Gyfreithiol ynghylch y Cylch Gorchwyl a goblygiadau ehangach yr adroddiad hwn.
- 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.
- 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Pe na fyddai'r Cydbwyllgor yn cael ei sefydlu, gan lwyr amgyffred y cyngor cyfreithiol a gafwyd, gallai'r model llywodraethu fod yn destun herio, yn enwedig am y bydd yn gyfrifol am gyflogi staff. Drwy ddatblygu Cylch Gorchwyl clir a rheolau clir ynghylch aelodaeth, bydd y Cydbwyllgor yn gallu bod mewn sefyllfa glir a chryf i lywodraethu'r endid newydd yn effeithiol. Gallai peidio â chytuno i'r argymhellion hyn wanhau'r model llywodraethu y cytunwyd arno yng nghyfnod yr Achos Busnes Llawn.
- 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
A101 Deddf Llywodraeth Leol 1972
A20 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Rheoliadau Llywodraeth Leol (Trefniadau Gweithredol) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002
Mae swyddogion cyfreithiol yng Ngwynedd, yr Awdurdod Cynnal, ac yn Sir Ddinbych, wedi cynghori bod angen y Cylch Gorchwyl a'r swyddogaethau dirprwyedig, ac wedi cynghori ar eu geiriad.

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	4 Medi 2012
Aelod / Swyddog Arwain:	y Cyng. Hugh Evans
Awdur yr Adroddiad:	Tom Booty, Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen
Teitl:	Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn yr adroddiad hwn, ceir manylion pellach Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP), a gyflwynwyd yn wreiddiol mewn Gwybodaeth i'r Cabinet ar 5 Rhagfyr 2011.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Dyrannwyd £16,695,276 gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi'r prosiect hwn, heb fod gofyn cyllid cyfalaf o gwbl gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae gofyn i'r Cabinet ystyried y prosiect yn unol â'n Rheoliadau Ariannol a'n Methodoleg Rheoli Prosiect.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn argymhell y prosiect i'r Cyngor i'w gymeradwyo i gyflenwi'r prosiect ac yn dirprwyo'r pwerau canlynol i Fwrdd y Prosiect (gweler adran 4.7 isod):

- i. darparu'r arweiniad a'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyflenwi'r prosiect cyffredinol mewn modd sy'n canolbwyntio ar weithredu;
- ii. goruchwylio'r gwaith o weithredu a monitro'r prosiect i sicrhau y caiff ei ddarparu mewn pryd ac yn unol â'r gyllideb;
- iii. dyrannu cyllid yn ôl yr angen i bob un o'r timau gwaith o fewn paramedrau'r gyllideb a ddirprwyir yn flynyddol gan y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth;
- iv. monitro cofrestr risg y prosiect.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl (WRHIP)

Nod WRHIP yw trawsnewid ardal yng nghanol Gorllewin y Rhyl, gan greu man agored newydd ac, o'i amgylch, bydd cartrefi sy'n wynebu'r man gwyrdd yn cael eu hadlunio neu eu hailwampio, gyda'r posibilrwydd o godi rhai tai newydd. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r cysylltiadau negyddol sydd gan yr ardal ar hyn o bryd, ac yn gwella

hyder buddsoddwyr i greu marchnad dai sefydlog, gynaliadwy lle mae'r sector preifat yn buddsoddi heb fod angen cymorthdal sector cyhoeddus parhaus. Darperir manylion llawn y cynllun yn:

- Atodiad 1 – Gwybodaeth am y Prosiect – Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl
- Atodiad 2 – Cynllun Bloc WRHIP
- Atodiad 3 – Argraff Artist o Fan Gwyrdd

Mae WRHIP yn brosiect partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Mae'n parhau'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yng Ngorllewin y Rhyl o dan Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru (NWCRA), a dyna pam y mae nifer sylweddol o'r adeiladau sy'n ofynnol i ddarparu'r prosiect hwn wedi'u caffael eisoes â chyllid Llywodraeth Cymru.

4.2 Y Man Gwyrdd

Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar fan gwyrdd newydd a fydd yn cael ei greu yn rhan o'r prosiect. Mae creu'r man gwyrdd hwn yn ymateb i uchelgais cymunedol hirfaith – a brofwyd mewn nifer o ymarferion ymgynghori dros y blynyddoedd – i greu man gwyrdd newydd yng nghanol Gorllewin y Rhyl. Y man gwyrdd newydd yw'r elfen allweddol hefyd mewn trawsnewid y ffordd y mae'r ardal yn edrych ac yn cael ei chanfod. Nid oes dyluniadau'n bod eto, oherwydd y bwriad yw datblygu defnydd a dyluniad y man hwn mewn partneriaeth â'r gymuned leol.

4.3 Y Rhaglen Gaffael

Bydd y prosiect yn caffael yr eiddo o amgylch y man gwyrdd newydd a fwriedir ac yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alyn/Pennaf a datblygwyr sector preifat i adlunio a/neu ailwampio'r cartrefi sydd yno eisoes ac i adeiladu cartrefi newydd a denu a chadw pobl sy'n economaidd weithgar. Byddwn yn ceisio caffael eiddo drwy gytundeb, ond rydym yn cydnabod rhagweld y bydd pwerau prynu gorfodol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod yr eiddo sy'n ofynnol i gyflenwi'r prosiect yn dod i feddiant cyhoeddus (cyfeirier at yr adroddiad sydd ynghlwm am orchmynion prynu gorfodol).

Yn amlwg, mae pobl yn byw yn rhan fwyaf o'r tai ar hyn o bryd, ac yn rhan o'r prosiect hwn byddwn yn ariannu Swyddog Adsefydlu a fydd yn gyfrifol am gynorthwyo'r preswylwyr i ddod o hyd i lety newydd a symud iddo. Byddwn yn ceisio symud y preswylwyr i'r gymuned o'u dewis, a dylai'r pecyn iawndal a gynigir drwy'r cynllun sicrhau bod holl gostau rhesymol y symud a'r aflonyddu a ddioddefir yn cael eu talu.

4.4 Y math o dai i'w creu

Lle cedwir tai mawr, bydd llawer yn cael eu hadlunio i'w haddasu i fod yn gartrefi ar gyfer un teulu. Lle cedwir tai llai o faint (2/3 ystafell wely), bydd y rhain yn cael eu hailwampio i safon uchel i greu cartrefi dymunol i barau a theuluoedd bach. Lle adeiladir cartrefi newydd gan y sector preifat, byddwn yn eu hannog i ddatblygu cartrefi a fydd yn ddeniadol i deuluoedd. Gan amlaf, disgwyliwn mai cartrefi tair ystafell wely fydd y rhain gyda gerddi a pharcio oddi ar y stryd. Ym mhob achos, boed adlunio, ailwampio neu adeiladu o'r newydd, byddwn yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi'n sylweddol a lleihau'r gofyniad am waith cynnal a chadw parhaus i sicrhau eu bod yn fforddiadwy.

Er cydnabyddir y gallai'r newidiadau arfaethedig yn y system Les gynyddu'r galw am gartrefi meddiannaeth unigol, un o amcanion allweddol y prosiect hwn fydd lleihau niferoedd y math hwn o lety. Er y rhaglen Diwygio Lles, ystyrir o hyd mai hwn yw'r dull cywir oherwydd gorgyflenwad y math arbennig hwn o lety sy'n achosi'r anghydbwysedd yn y farchnad dai ac sy'n creu'r crynodiad o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Wedi dweud hynny, cydnabyddir y bydd y rhaglen ddiwygio'n effeithio ar rannau eraill o'r Rhyl y tu hwnt i ardal y prosiect, a bydd y swyddogion sydd wrthi'n cyflenwi'r prosiect yn gweithio gyda swyddogion perthnasol eraill i geisio sicrhau bod ardal ehangach y Rhyl yn darparu marchnad dai cytbwys.

4.5 Rhaglen Gyflenwi

Mae rhaglen amlinellol ar gyfer cyflenwi'r blociau unigol ynghlwm:

- Atodiad 4 – Cynllun Rhaglen WRHIP – Gorff. 12

4.6 Rheoli'r Prosiect

Mae Rheolwr Prosiect Sir Ddinbych pwrpasol wedi'i benodi i gydlynu'r gwaith o gyflenwi'r prosiect. O dan ei gyfarwyddyd mae tîm prosiect ac amryw weithgorau â thema wedi'u sefydlu'n barod. Bydd cynnydd y prosiect yn cael ei fonitro drwy'r prosesau a'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â Methodoleg Rheoli Prosiect Sir Ddinbych.

4.7 Trefniadau Llywodraethu

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect a chynhaliwyd cyfarfod agoriadol y grŵp hwn ym mis Gorffennaf 2012. Mae hwn yn fwrdd partneriaeth lefel uchel ac mae ei aelodau'n dod o'r 3 phartner allweddol – Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Mae Cylch Gorchwyl drafft, sy'n cynnwys manylion aelodaeth, ynghlwm yn:

- Atodiad 5 – Cylch Gorchwyl WRHIP

Aelodaeth Cyngor Sir Ddinbych o'r Bwrdd hwn yw:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Uchelgais Economaidd a Chymunedol (*a gynrychiolir ar y Bwrdd ar hyn o bryd gan Mohammed Mehmet*)
- Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych
- Aelod Arwain dros Adfywio (*ar hyn o bryd, yr un unigolyn ag uchod*)
- Aelodau Ward Gorllewin y Rhyl (x 2)

Bydd Bwrdd WRHIP yn gyfrifol yn gyffredinol am gyflenwi'r prosiect - o ran goruchwylio'r cyflenwi gweithredol ac o ran rheoli cyllid - fel yr amlinellir yn adran 3 uchod. I bob pwrpas, bydd hyn yn golygu y bydd y Bwrdd yn goruchwylio'r rhaglen caffael eiddo, gan gynnwys goruchwylio unrhyw broses prynu gorfodol sy'n ofynnol. Bydd y Bwrdd yn awdurdodi'r holl wariant ar y prosiect mewn perthynas ag elfennau unigol fel caffael eiddo, ond bydd gwaith cyflenwi'r prosiect o ddydd i ddydd yn cael ei reoli gan y Rheolwr Prosiect mewn cysylltiad â'r Tîm Prosiect (y cyfeiriwyd ato yn adran 4.6 uchod). Byddai gan y Bwrdd Prosiect yr awdurdod i gytuno ar gaffaeliad

uwchlaw gwerth marchnad petai'n ystyried bod hwn yn rhoi gwerth am arian o ran arbed amser swyddog mewn cyd-drafodaethau maith a/neu osgoi'r gofyniad i gymryd camau prynu gorfodol. Yn yr un modd, byddai gan y Bwrdd Prosiect yr awdurdod i newid cwmplas y prosiect, er enghraifft drwy waredu ambell eiddo o'r rhaglen gaffael, petai cyllid yn cael ei leihau er enghraifft neu petai costau'r rhaglen gaffael yn codi'n ormodol oherwydd pwysau marchnad.

4.8 Casgliad

Mae hon yn rhaglen feiddgar, uchelgeisiol a drud, ond o ystyried bod cynlluniau grant a rhaglenni sector cyhoeddus blaenorol wedi methu ag adfywio'r ardal, ystyrir mai hon yw'r ffordd orau o greu'r newid parhaol sydd ei angen mor amlwg ar yr ardal. Bydd mynd i'r afael â'r materion maith hyn hefyd yn helpu i greu argraff fwy cadarnhaol o'r dref yn gyffredinol a thrwy hynny ceir buddion adfywio helaethach.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol arfaethedig:

5.1: Blaenoriaeth 1 – Datblygu'r Economi Leol a'n Cymunedau

Drwy greu cymuned fwy cytbwys, bydd y prosiect yn lleihau amddifadedd yn y rhan hon o Orllewin y Rhyl – un o ganlyniadau allweddol y flaenoriaeth hon. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â chysylltiadau negyddol yr ardal, yn hybu hyder y sector preifat yn y Rhyl, ac yn ysgogi buddsoddiad a hyder y sector preifat yn y Rhyl gan greu cyfleoedd busnes a swyddi newydd.

5.2: Blaenoriaeth 6 – Sicrhau bod tai o safon dda ar gael

Bydd y prosiect hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar ganlyniad blaenoriaeth "*cynnig amrywiaeth o fathau a ffurfiau o dai ... i fodloni anghenion unigolion a theuluoedd*".

6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Crynoir y costau (a dynnwyd o Atodiad 1 – Gwybodaeth Prosiect – Prosiect Gwella Tai Gornllewin y Rhyl) isod:

Darparwch fanylion y gofyniad cyllid cyfalaf (heb gynnwys y swm a wariwyd eisoes):				
Nodwch fanylion yr elfen gost isod:	2012/13	2013/14	2014/15	Cyfanswm Pob Blwyddyn
Caffael a dymchwel eiddo	£6,269,276	£5,843,000	£250,000	£12,362,276
Cynllunio a Dylunio	£100,000	£500,000	£0	£600,000
Adeiladu Parc Trefol a thirlunio	£0	£0	£2,620,000	£2,620,000
Rheoli Cymdogaeth	£15,000	£15,000	£10,000	£40,000
Cyfathrebu	£25,000	£25,000	£25,000	£75,000
Costau Staff	£214,000	£184,000	£100,000	£498,000
Grantiau Cyllid Llenwi Bwlch/Cronfa Wrth Gefn	£0	£80,000	£420,000	£500,000
Cyfanswm costau'r Prosiect	£6,623,276	£6,647,000	£3,425,000	£16,695,276

Darparwch fanylion y ffynonellau cyllid cyfalaf arfaethedig					
Nodwch fanylion y ffynhonnell gyllid	To date	2012/13	2013/14	2014/15	TOTAL
Llywodraeth Cymru – Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog	0	£5,000,000	£5,000,000	0	£10,000,000
Llywodraeth Cymru – NWCRA	£6,583,950	£1,623,276	£1,747,000	£3,425,000*	£13,279,226
CYFANSWM	£6,583,950	£6,623,276	£6,647,000	£3,425,000	£23,279,226

* nid yw'r cyllid ar gyfer 2014/15 wedi'i gadarnhau eto gan NWCRA

Fel y dengys y tabl uchod, mae'r cyllid ar gyfer yr WRHIP yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru o gyfuniad o Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog a chyllid gan Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru (NWCRA). Dyrannwyd y cyllid hwn yn benodol i'r prosiect hwn ac nid yw ar gael i'w wario'r tu allan i'r Rhyl nac ar brosiect arall.

Ar ôl cyflenwi'r prosiect, efallai bydd goblygiad refeniw parhaus mewn perthynas â chynnal a chadw'r man gwyrdd a fydd yn cael ei greu. Bydd y dewisiadau o ran mynd i'r afael â hyn a sicrhau bod y man yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn cael eu hystyried ymhlith elfennau allweddol y broses gynllunio a dylunio.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Deilliodd y cynnig am y man gwyrdd o'r dadansoddi manwl a'r ymgynghori helaeth a wnaethpwyd gan yr ymgynghorwyr DPP Shape yn 2010 yn rhan o'u comisiwn i baratoi uwch gynllun ar gyfer Gorllewin y Rhyl. Am fanylion ymgynghoriad dilynol, trowch at:

- Atodiad 6 – Crynodeb o Gyfathrebu ac Ymgynghori â'r Gymuned

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hon yn amlwg yn brosiect uchelgeisiol a chymhleth. Dengys y gofrestr risg nifer o risgiau sy'n cael eu hystyried yn rhai 'ambr' a rhaid iddynt felly fod yn destun craffu gofalus gan y bwrdd prosiect. Mae'n cael ei ariannu'n llawn gan ffynonellau allanol ac mae'r gyllideb fel petai'n ddigon ar gyfer maint arfaethedig y prosiect. Pe byddai unrhyw elfen yn gorwario, golyga natur y prosiect y gellir lleihau elfennau eraill i wneud iawn am hynny ac fel y cyfryw dylai fod yn annhebygol iawn y bydd angen i'r Cyngor gymryd rhan yn ariannol. Ar hyn o bryd, nid yw'n chwarae rhan heblaw cyfrannu amser dau aelod o staff.

9. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Fel y dengys y tabl yn adran 6, mae'r prosiect yn cael ei gyflenwi â chyllid allanol. Mae risg (a ddisgrifir yn y Gofrestr Risg) na fydd yr arian yn dod yn y blynyddoedd i ddod (nid yw cyllid 2014/15 wedi'i gadarnhau eto), neu y bydd newidiadau yn y farchnad eiddo'n golygu y bydd y prosiect heb gyllid digonol. Er ystyrir nad yw hyn yn debygol iawn o gwbl, mae rhan ariannol y cyngor y isel beth bynnag am fod y prosiect yn cael ei ariannu'n allanol. Pe byddai sefyllfa felly'n codi, byddai gan y Bwrdd Prosiect yr awdurdod i leihau cwmpas y prosiect er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r buddion allweddol yn cael eu cyflenwi o hyd.

Yn y sefyllfa waethaf, lle byddai gostyngiad cyllid neu gynnydd costau'n golygu na fyddai modd cyflenwi'r prosiect, gellid gwerthu'r eiddo a gadwyd ar y farchnad agored ac adennill rhai o'r costau. Byddai penderfyniad felly y tu hwnt i gwmpas y Bwrdd Prosiect a byddai angen awdurdod y Cyngor i gau'r prosiect yn y modd hwn.

Disgrifir risgiau pellach y prosiect yn:

- Atodiad 7: Cofrestr Risg WRHIP

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Adrannau 226 a 227 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

PROJECT BRIEF



The Project Brief is the first document developed to introduce a project. It should expand the initial concept or idea to broadly define the scope of the proposed project (objectives, outcomes and outputs), and provide an estimate of the resourcing time and costs associated with progressing the initiative.

If you require assistance completing this form please contact the Programme & Projects Team at projects@denbighshire.gov.uk or on extension 6076.

Project/Activity Name:	West Rhyl Housing Improvement Project
Programme:	Rhyl Going Forward – Neighbourhoods & Places
Workstream:	West Rhyl Regeneration

Head of Service:	Peter McHugh	Lead member:	Hugh Evans
Service Area:	Housing & Regeneration	LM Portfolio:	Regeneration
Form completed by:	Peter McDermott	Date:	9 th July 2012

PROJECT TYPE

Please categorise your project type. Mark **one** box only.

This Project Brief is for a work programme or block allocation (ie a collection of smaller works managed coherently together e.g. maintenance schemes, grant schemes, highway maintenance, etc)	
The project scored 0 to 4 and is categorised as SMALL	
The project scored between 5 and 10 and is categorised as MEDIUM	
The project scored over 10 and is categorised as LARGE	X

Please complete the scoring matrix below to evidence your categorisation. This **is not** required if you have categorised the activity as a work programme or block allocation.

Criteria:	Score 0	Score 1	Score 2	
What is the total cost of the project?	Up to £50K OR Up to £150K (construction)	£50K to £150K OR £150K to £1mill (construction)	Over £150K OR Over £1 million (construction)	2
How long will it take to develop and implement the project?	Up to 3 months	3 to 12 months	Over 12 months	2
Which stakeholders are involved?	Mainly internal	Internal & external	Stakeholder opposition	2
Has Denbighshire done this sort of project before?	Many times	Once or twice	Never	2
What is the reputational risk to Denbighshire if we make significant mistakes in project delivery or the project fails?	Low	Medium	High	2
What is the financial risk to Denbighshire if we make significant mistakes in project delivery or the project fails?	Low	Medium	High	2
Total Score:				12

BACKGROUND INFORMATION

This section should provide a brief description of the project/activity you propose to undertake and the reason it is required. You should assume that the reader has no background knowledge.

Aim & Outcome

This project aims to transform an area within the heart of West Rhyl, creating a new open space around which homes facing the green space will be remodelled or refurbished. This will address the negative associations the area currently has, and improve investor confidence to create a stable, sustainable housing market where the private sector invests without the need for ongoing public sector subsidy.

The Green Space

The investment centres around a new green space that will be created as part of the project. The creation of this green space responds to a long-standing community aspiration – evidenced in numerous consultation exercises over the years – to create a new green space in the heart of West Rhyl. The new green space is also the key element in transforming the way the area looks and is perceived, and should generate value in the surrounding properties in the same way Victorian and Edwardian Squares did for a previous generation. The area identified through the analysis and consultation is the block bounded by Aquarium Street, Abbey Street, Gronant Street and John Street. No designs exist yet, as it is the intention to develop the use and design of this space in partnership with the local community.

The Acquisition Programme

The project will acquire the properties around the planned new green space and work with Pennaf/Clwyd Alyn Housing Association and private sector developers to remodel and/or refurbish existing houses and build new homes and attract and retain economically active people. Many properties have already been acquired as part of the North Wales Coast Regeneration Area (NWCRA), and work is ongoing to continue this acquisition programme. We will be seeking to acquire the properties by agreement, but acknowledge that we anticipate the use compulsory purchase powers to ensure that the properties required to deliver the project are brought into public ownership.

Clearly most of the housing is currently occupied, and as part of this project we will be funding a Resettlement Officer whose role will be to assist residents identify and relocate to new accommodation. We have already a successful track record in achieving this type of relocation as 46 properties have already been acquired and residents relocated through the NWCRA. We will be seeking to relocate residents to the community of their choice, and the compensation package offered through the scheme should ensure that all reasonable costs of the move and disruption suffered are covered. Work to date on housing needs in the area indicate that the vast majority of residents wish to remain in Rhyl and at this stage we are reasonably confident that this can be accommodated within existing housing stock in the area. Thus fears about migrating “the problem” to other communities seems unfounded.

The type of housing to be created

Where large houses are retained, many will be remodelled to adapt them to single occupancy, family housing. In many cases this will mean reducing the size of the buildings, probably by demolishing the “outriggers” at the back of the properties. This approach will have a number of benefits:

- Reduce the number of houses in multiple occupation and with small, one bedroom flats;
- Reduce the homes to a sensible size for family housing (3 or 4 bedrooms, occasionally some 5 bedrooms);

- Remove the possibility of the houses being re-converted to multi-occupancy in the future;
- Create space at the rear of the properties for off street parking, waste storage and gardens;

Where smaller houses are retained (2/3 bedrooms), these will be refurbished to a high standard to create desirable homes for couples and small families.

Where new homes are constructed by the private sector, we will be encouraging them to develop homes that will be attractive to families. In most instances we expect this to be three bedroom homes with gardens and off street parking.

In all cases, be it remodelling, refurbishment or new build, we will be seeking to significantly improve the energy efficiency of the homes and reduce the requirement for ongoing maintenance to ensure their affordability.

The Specifics

Map 1 (attached) illustrates how the project area has been divided into six blocks:

- **Block One:** consisting of 2-36 (evens) Gronant St, 3-29 (odds) Aquarium Street, 13-15 (odds) John St, 26-38 (evens) Abbey St (scheduled for demolition 06/12). The properties in this block will be acquired and demolished to create the green space.
- **Block Two:** consisting of 3-31 (odds) Gronant St. These properties will be acquired and refurbished by Pennaf/Clwyd Alyn Housing Association and marketed as “Homebuy” properties, whereby residents will own majority of equity in the home.
- **Block Three:** consisting of 2-16 (evens) Aquarium St. The plan is here is to seek a private sector development partner in association with block 5. The presumption here is in favour of retaining the properties but remodelling them to reduce the floorspace and create good quality, large (4/5 bedrooms) family homes with gardens and off street parking at the rear. Other options may be considered depending on the response and interest from the private sector on the wider site (blocks 3 and 5). It is envisaged that the homes created through this scheme will be sold for owner occupation.
- **Block Four:** consisting of 14-24 (evens) John St. As with block 3, the intention here is to seek a private sector development partner to remodel these homes. The existing properties in this block are even larger than those in Block 3, and have limited opportunity to create amenity space to the rear. As such, the remodelling of these homes would most likely include some conversion to good quality apartments (2/3 bedroom) as well as single occupancy, family housing. Because of the smaller scale and nature of the proposals for this block, it is envisaged that the selection process for this block will be separate to that for Block 3/5, although the processes may run concurrently. It is envisaged that the homes created through this scheme will be sold for owner occupation.
- **Block Five:** consisting of 1-11 (odds) John Street, 18 Aquarium St, 50-57 West Parade. This is a significant site which fronts onto West Parade. With the exception of the properties on John Street the site has already been acquired through the NWCRA and the properties demolished. The proposal here is for a mixed use, new build development. Whilst housing is likely to form a significant element for the scheme, given the location on the sea front uses could also include hotel, leisure, offices or retail. We will be seeking a private sector partner (in conjunction with Block 3), and as such the end uses and form of the development will be determined through market viability and the planning process. It is envisaged that the homes created through this scheme will be sold for owner occupation.

- **Block Six:** consisting of 3-41 (odds) Abbey St, 10-24 (evens) Abbey St, 8-12 Hope Place. Given the diversity of type and tenure of housing in this area, a more opportunist approach will be taken. We will still be acquiring property in this block, and as and when a “cluster” of properties have been brought into public ownership the most appropriate scheme for that site will be considered. This could be a mix of remodelling and refurbishment, and could be for either owner occupation or Registered Social Landlord (RSL) accommodation. Either way, we will be seeking in the first instance to convert properties into single occupancy, family housing, but where this is not practical or achievable we will convert into apartments with good space standards.

In total the project will be looking to acquire 113, although 42 of these properties have already been acquired through earlier phases of the NWCRA.

The Funding Mechanisms

The project funding provides for the acquisition of all the properties within the blocks detailed above, but does not include for any refurbishment or development costs. For the blocks where we will be working with a private sector partner, the cost of new build and remodelling/refurbishment will be met by the private sector under the auspices of a Development Agreement. This will cap the level of developer profit that can be made and will detail the arrangements for the transfer of property ownership from public to private and the financial transaction associated with this. No detailed arrangements in this regard have been developed yet as these will be subject to detailed discussion and negotiation through the developer selection process, although the general principle that the refurbishment costs will be offset by the capital value of the property prevails.

The properties remodelled and/or refurbished by RSL's will be subject to separate arrangements, but the principles remain the same and the refurbishment funded by the RSL's.

Project Management

A dedicated Project Manager has been appointed to coordinate delivery of the project. Under his direction a project team and various themed working groups have already been established. The first meeting of the Project Board is anticipated in early Aug 2012. Progress of the project will be monitored through the processes and documentation associated with Denbighshire's Project Management Methodology.

Conclusion

This is a bold, ambitious and expensive project, but given that previous public sector programmes and grant schemes have failed to regenerate the area, it is considered the best way of creating the lasting change the area so clearly requires. Addressing these long-standing issues will also help create a more positive impression of the town overall and thereby have more far-reaching regeneration benefits.

OUT OF SCOPE

If this Project Brief is approved and a Business Case is to be developed, please detail any elements (eg. activities, functions, services, geographic areas) which will be specifically excluded from the project. Note that in-scope activity should have been defined in the Background Information section above.

Any other properties in West Rhyl **not** included in the six blocks described in the section Background Information above are **outside** the scope of this project.

OUTPUT

An output is what is physically created by the project eg a new or refurbished building, a policy or strategy document, a re-structured organisation or service, an event, a new software system installed, etc.

FOR WORK PROGRAMMES/BLOCK ALLOCATIONS YOU MUST ATTACH A SCHEDULE OF THE WORKS PROPOSED

- New Green Space (4500m2)
- Reduction of HMO units within the area currently approx. 34 with an estimated 182 accommodation units
- Remodelled homes 14 (radically altered to create single occupancy or better proportioned apartments)
- Refurbished homes 31 (refurbished internally and externally to improve quality of accommodation)
- New build homes to be determined in discussions with developer

OUTCOME

An outcome is what happens, or what should happen, as a consequence of delivering the output eg improved educational attainment, safer working practices, cheaper or more efficient service delivery, etc.

- A more balanced housing offer
- Improved appearance and perception of the area
- Ongoing private sector investment

INTER-DEPENDENCIES

Please provide further information if this project or activity will have dependencies with other projects, service reviews or council activities.

The following initiatives/projects are not contained within the scope of the WRHIP, but will be closely monitored to ensure that they coordinate and compliment the project:

- Neighbourhood Management
- SPG (Supplementary Planning Guidance)
- HMO Quality Improvement
- Supported Living Strategy
- Community Land Trust
- W. Rhyl Community Seeds

OVERARCHING AIMS / CORPORATE PRIORITIES

This section should identify how the project/activity supports Denbighshire's corporate priorities

Regeneration and Economic Development
Local Housing Strategy (West Rhyl identified as focus for action)
The Big Plan (Regeneration of Rhyl).

TIMESCALES

This section should outline the forecast timescales for the activity.

See attached Project Schedule

COLLABORATION

Is this a collaboration project?				Yes	X	No	
If yes, collaboration partner:	Conwy only		Flintshire only		Wrexham only		
	Conwy & Flintshire		Flintshire & Wrexham		Conwy, Flintshire & Wrexham		
	All North Wales		NHS		Other		X
If other please comment:	<p>Key Partners:</p> <p>Welsh Government Pennaf Housing Association (Clwyd Alyn Housing Association)</p> <p>Other Partners:</p> <p>Local community and property owners Police, Fire Service Voluntary sector groups Local community groups</p>						

GEOGRAPHIC AREA

If appropriate, please indicate the geographic area where project activity will take place. Note that more than one area can be ticked. If the project activity is internal to the organisation (eg service reviews, policy or strategy development, etc) please tick the corresponding box.

Geographic Area:	Rhyl	X	Prestatyn		Elwy	
	Denbigh		Ruthin		Dee Valley	
	All Denbighshire		Internal to organisation		Other	
If other please comment:						

CAPITAL COSTS

The capital cost of a project is an important consideration in terms of whether or not it should proceed. Note that even some non-construction projects may have a requirement for capital costs. For example, to fund the acquisition of new ICT hardware or undertaking alterations to buildings.

- Any costs relating to ICT infrastructure and equipment should have been provided by ICT department.
- Any costs that relate to construction should have been provided by Design & Development or Building Services.

At this stage it is acceptable to present a cost range.

Estimated project capital cost or cost range	£23,279,226
---	--------------------

Please provide details of any capital funding that has already been spent on the project:	
Enter details of cost element below:	Total
Purchase & demolition costs to date*	£6,583,950
TOTAL	£6,583,950

Please provide details of the capital funding requirement (not including amount already spent):				
Enter details of cost element below:	2012/13	2013/14	2014/15	All Years Total
Property acquisition & demolition	£6,269,276	£5,843,000	£250,000	£12,362,276
Planning & Design	£100,000	£500,000	£0	£600,000
Urban Park Construction and landscaping	£0	£0	£2,620,000	£2,620,000
Neighbourhood Management	£15,000	£15,000	£10,000	£40,000
Communication	£25,000	£25,000	£25,000	£75,000
Staff Costs	£214,000	£184,000	£100,000	£498,000
Gap Fund Grants/Contingency	£0	£80,000	£420,000	£500,000
Total Project costs	£6,623,276	£6,647,000	£3,425,000	£16,695,276

Please provide details of proposed capital funding sources					
Enter details of funding source	To date	2012/13	2013/14	2014/15	TOTAL
WG – Centrally Retained Capital	0	£5,000,000	£5,000,000	0	£10,000,000
WG - NWCRA	£6,583,950	£1,623,276	£1,747,000	£3,425,000*	£13,279,226
TOTAL	£6,583,950	£6,623,276	£6,647,000	£3,425,000	£23,279,226

* funding for 2014/15 is not yet confirmed from NWCRA

If necessary, please use the box below to provide any further details in relation to the capital funding information you have provided (eg any assumptions made, initial indications from funding bodies, etc).

<p>The Welsh Government Funding for this project has already been confirmed and allocated by Welsh Government.</p> <p>Costs above relate to public sector investment. The project will generate further (as yet un-quantified) private sector investment not included above relating to the investment in the refurbishment and new build elements of the scheme.</p>

From the public sector investment detailed above it is also anticipated that a capital receipt of approximately £1,050,000 will return to the public sector (Welsh Government) via the sale of **Block Two** Gronant St South £300,000, and **Block Five** John St East/ West Parade £750,000

Staff costs and project revenue costs outlined above relate to key staff employed to deliver the project, including DCC Surveyor to undertake property acquisitions and a Resettlement Officer to help residents move. The costs above do not include the costs of the West Rhyl Project Coordinator (Peter McDermott) and the Rhyl Going Forward Programme Manager (Tom Booty) who are both funded by Denbighshire.

REVENUE COSTS

The revenue cost of a project is an important consideration in terms of whether or not it should proceed. Please indicate below the expected revenue impact of the project or activity.

What is the impact of this project (once it has been delivered) in terms of the DCC revenue requirement for:	increase	neutral	decrease	not known
• staff costs (salaries and associated)?		✓		
• energy costs (heating, lighting, ICT, etc)?		✓		
• other property related costs (rental, insurance, etc)?		✓		
• ongoing ICT costs (licences, etc)		✓		
• mileage of Denbighshire fleet vehicles?		✓		
• mileage for business travel by Denbighshire employees using their personal vehicles?		✓		
OVERALL REVENUE REQUIREMENT		✓		

ADDITIONAL INFORMATION REQUIRED FOR CONSTRUCTION PROJECTS AND WORK PROGS:

Will this project have a significant impact on reducing an existing building maintenance backlog?	Yes		No	✓
Is this project creating a new facility (ie not replacing an existing facility) which will require additional maintenance/servicing funding?	Yes	✓	No	

